

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc 0300 200 6565
Amser: 08.50	SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod preifat

(8:50 – 9:00)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**
(9:00) (Tudalennau 1 – 25)
- 2 **Sesiwn Dystiolaeth: Cynllunio**
(Tudalennau 26 – 37)
 - Julie James AC – Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
 - Neil Hemington – Pennaeth Cynllunio, Llywodraeth Cymru
 - Stephen Phipps – Swyddog Prosiectau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
- 2.1 P-05-786 Arbedwch ein cefn gwlad – dylid adolygu TAN 1
(Tudalennau 38 – 40)
- 2.2 P-05-881 Trwsio ein system gynllunio
(Tudalennau 41 – 42)
- 2.3 P-05-843 Mwy o hawliau trydydd parti mewn apeliadau cynllunio
(Tudalen 43)
- 2.4 P-05-845 Rhowch Derfyn ar Wrthdaro Buddiant yng Nghyfansoddiad
Awdurdodau Lleol
(Tudalen 44)
- 3 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

Item 4



4 Trafod Sesiynau Tystiolaeth Blaenorol

(9:45 – 10:00)

5 Deisebau newydd

(10:00)

- 5.1 P-05-884 Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018 i gynnwys sefydliadau'r DU sydd â gweithrediadau dramor

(Tudalennau 45 – 60)

- 5.2 P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55 A494)

(Tudalennau 61 – 76)

- 5.3 P-05-888 Gwneud TGAU Iaith Gymraeg yn orfodol ym mhob ysgol yng Nghymru

(Tudalennau 77 – 84)

6 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Tai a Llywodraeth Leol

- 6.1 P-05-717 Sefydlu Hawliau Mynediad Cyhoeddus Statudol i Dir a Dŵr Mewndirol at Ddibenion Hamdden a Dibenion Eraill

(Tudalennau 85 – 93)

Economi a Thrafnidiaeth

Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd

- 6.2 P-05-775 Caewch y bwlch sy'n ymwneud â gweithio trawsffiniol ac is-gontractio yn y gyfraith trwyddedu tacsis

(Tudalennau 94 – 95)

- 6.3 P-05-835 Caniatáu i Yrwyrr Tacsî Symud yn Rhydd i wneud Gwaith Hurio Preifat Unrhyw Le yng Nghymru

(Tudalennau 96 – 98)

6.4 P-05-827 Y ffyrdd o amgylch Trago Mills Parc Manwerthu Cyfarthfa
(Tudalen 99)

Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

6.5 P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig
(Tudalennau 100 - 102)

Cyllid

6.6 P-05-855 Adolygiad o ryddhad ardrethi busnesau bach
(Tudalen 103)

Addysg

6.7 P-05-802 Amddiffyn Maint Dosbarthiadau mewn Ystafelloedd Dosbarth a Gweithdai Dylunio a Thechnoleg
(Tudalennau 104 - 107)

Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd

6.8 P-05-860 Dylid gwneud Gwersi Sgiliau Bywyd yn Orfodol ar y cwricwlwm
(Tudalennau 108 - 110)

6.9 P-05-861 Gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd
(Tudalennau 111 - 114)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2.1

P-05-786 Arbedwch ein cefn gwlad – dylid adolygu TAN 1

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cllr Mike Priestley ac ystyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor yn ystod Tachwedd 2017, ar ôl casglu 706 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb

Mae newidiadau i Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN1) yn 2015 wedi arwain at dargedau tai blynyddol na ellir eu cyrraedd. Mae hyn wedi arwain at wahanu penderfyniadau cynllunio oddi wrth y broses gynllunio ddemocrataidd leol, ac wedi tanseilio Cynlluniau Datblygu Lleol mabwysiedig (CDLlau) ledled Cymru.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adfer y defnydd o "fethodoleg cyfraddau adeiladu yn y gorffennol" o fewn Nodyn Cyngor Technegol 1, ochr yn ochr â'r "fethodoleg weddilliol". Byddai hyn yn sicrhau bod Cynghorau yn gallu cynnal asesiadau anghenion cyflenwi tir deallus a chredadwy. Mae perfformiad o ran cyflenwi tai yn y gorffennol wedi adlewyrchu amodau economaidd a gallu a gwydnwch y diwydiant adeiladu lleol.

Er mwyn sicrhau cyflenwad o dir hygyrch a chyflawnadwy, ac i gydbwysu'r angen am dai gyda'r angen i ddiogelu ein hamgylchedd a'n treftadaeth, mae'n hanfodol bod amodau economaidd a chynhwysedd y diwydiant adeiladu lleol yn cael eu hystyried mewn cyfrifiadau blynyddol o ran y Cyflenwad Tir Pum mlynedd ar gyfer Tai.

Mae newidiadau i TAN1 wedi gorfodi Cynghorau Lleol i ganiatáu datblygiadau tai sy'n fwy na'r hyn a ystyrir yn alw lleol. Mae'r datblygiadau hyn yn aml ar raddfa fawr ac yn cael effaith andwyol ar y llain werdd a threftadaeth ein Sir, wrth i ardaloedd trefol a gwledig or-ehangu. Mae hyn, yn ei dro, yn rhoi galwadau ychwanegol ar wasanaethau sydd eisoes wedi'u hymestyn, fel Meddygon Teulu, Ysbytai, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgolion.

Mae tynnu methodoleg y cyfraddau adeiladu yn y gorffennol yn 2015 yn achosi i nifer cynyddol o Awdurdodau Lleol ddatgan diffyg Cyflenwad Tir am

bum mlynedd. Mae hyn, yn ei dro, yn gorfodi Cyngorau Lleol, yn erbyn eu hewyllys a'u tueddiad naturiol, i gymeradwyo ceisiadau datblygu hapfasnachol ar dir maes glas sy'n sensitif yn lleol, tir heb ei ddyrannu yn eu CDLlau a, phan na roddir cymeradwyaeth leol i'r ceisiadau hapfasnachol hyn, mae penderfyniadau democrataidd lleol yn cael eu gwrthdroi ar apêl, yn benodol oherwydd diffyg Cyflenwad Tir 5 mlynedd ar gyfer Tai.

Gwybodaeth ychwanegol:

Yn 2014, roedd gan Gyngor Sir Conwy gyflenwad tir am fwy na saith mlynedd pan archwiliwyd ei Gynllun Datblygu Lleol gan yr Arolygydd Cynllunio, ac y cymeradwywyd ef. Lai na 12 mis yn ddiweddarach roedd y newidiadau i TAN 1 wedi lleihau cyflenwad tir Sir Conwy i lai na phum mlynedd. Mae hyn wedi lleihau ymhellach gyda chyfrifiadau blynyddol o'r cyflenwad tir a fu ers hynny. Yn 2017, mae cyflenwad tir Conwy yn 3.1 blynedd erbyn hyn, o ganlyniad uniongyrchol i'r newidiadau i TAN1, ac mae'r Gyngor yn cael ceisiadau datblygu hapfasnachol ar gyfer tir nad yw wedi'i ddyrannu yn y CDLI, er bod tir a ddyrannwyd ar gael. Pe bai methodoleg y cyfraddau adeiladu yn y gorffennol yn cael ei ganiatáu o hyd, byddai gan Sir Conwy gyflenwad am 8.5 mlynedd heddiw.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar TAN1 yn dweud wrth Gyngorau Lleol sut i gyfrifo eu cyflenwad o dir tai. Dylai pob Gyngor feddu ar ddigon o dir i ddiwallu anghenion ar gyfer pum mlynedd o adeiladu tai. Yn y TAN1 blaenorol, roedd dau ddull o gyfrifo faint o dir yr oedd ei angen:

1. Y dull gweddilliol, sy'n seiliedig ar gyfanswm yr angen am dai o Gynllun mabwysiedig.
2. Y dull cyfraddau adeiladu yn y gorffennol, gan ddefnyddio'r cyfraddau adeiladu tai ar sail y 5 mlynedd ddiwethaf i ragweld y drefn am y 5 mlynedd nesaf.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydbwyso ein penderfyniadau a'n gweithredoedd o ran effaith heddiw ac effaith yn y dyfodol. Yn sicr, oni ddylem ddefnyddio'r meddylfryd hwn i gynllunio tir a'r defnydd o dir? Mae polisi presennol Llywodraeth Cymru yn gorfodi i dir glas allweddol gael ei goncritio ac i ddod yn dir llwyd yn barhaol. Gwrthodwyd yn chwyrn y cam o osod a chyfyngu ar y defnydd o'r

"fethodoleg weddilliol" yn ystod y cyfnod ymgynghori a thu hwnt, ond anwybyddwyd lleisiau'r Cynghorau Lleol. Mae angen i Gynghorau Lleol allu:

- amddiffyn treftadaeth a'r amgylchedd, a'r defnydd o dir glas sensitif, ac ymarfer disgresiwn, dyfarnu a rheolaeth leol o ran ble y mae angen datblygu a ble y'i caniateir.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberconwy
- Gogledd Cymru

P-05-881 Trwsio ein system gynllunio

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ruth Parker, ar ôl casglu cyfanswm o 250 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i drwsio ein system gynllunio; mae angen i ddatblygiadau newydd fod yn gynaliadwy.

Mae paragraff 4.2.15 o ddogfen Polisi Cynllunio Cymru yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod digon o dir ar gael, neu y bydd digon o dir ar gael, ar gyfer cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai. I allu ystyried bod tir ar gael yng ngwir ystyr y term, mae'n rhaid i'r safle dan sylw fod yn safle sydd wedi'i gynnwys mewn Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

Mae'r cyflenwad pum mlynedd o dai yn rhoi gormod o bwysau ar awdurdodau lleol, sy'n golygu bod datblygiadau anaddas yn cael eu hadeiladu. Mae'r Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn ddiffygiol: nid yw'n ystyried tai gwag na nifer yr ail gartrefi yn yr ardal. O ganlyniad i'r prinder tir, mae cynghorau'n teimlo bod angen rhoi caniatâd cynllunio hyd yn oed os ydynt yn ymwybodol o broblemau yn ymwneud â'r isadeiledd. Os yw cynghorau'n gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn gwyrddroi eu penderfyniadau yn ystod y broses apêl.

Mae datblygwyr yn ymwybodol o'r bylchau yn y system, ac maent yn gallu manteisio ar fregusrwydd cymunedau drwy ymgymryd â datblygiadau hapfasnachol mawr y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol. Gan fod y datblygiadau hyn y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol, nid yw cynaliadwyedd yr ardal o ran llesiant yr economi, iechyd, trafndiaeth a'r amgylchedd yn destun gwaith craffu manwl. Hyd yn oed os yw trigolion yn tynnu sylw at astudiaethau/ystadegau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â'r ardal dan sylw, nid yw eu lleisiau'n cael eu clywed mewn apeliadau. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn a olygir gan dystiolaeth 'gadarn'.

Cyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn atal datblygiadau anghynaliadwy ac er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r

dyfodol yn cael cyfle i fwynhau dyfodol rhesymol. Mae cymunedau'n teimlo nad yw polisi nac arfer yn adlewyrchu hyn.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberconwy
- Gogledd Cymru

P-05-843 Mwy o hawliau trydydd parti mewn apeliadau cynllunio

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emma Eynon, ar ôl casglu 59 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n rhoi mwy o hawliau i drydydd partion apelio penderfyniadau cynllunio. Ar hyn o bryd, ystyrir bod hyd yn oed y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn drydydd partion i geisiadau cynllunio a gymeradwyir ac nad oes ganddynt fawr o hawl, os o gwbl, i apelio na hyd yn oed cynnig mewnbwn i amodau cynllunio. Mae'r broses adolygu barnwrol wedi'i hanelu at ddatblygwyr ac nid yw'r terfyn amser o chwe wythnos ar gyfer cyflwyno cais o'r fath yn addas ar gyfer grwpiau gweithredu cymunedol. Dylai fod gan drydydd partion yr un hawliau â datblygwr i apelio penderfyniadau cynllunio ac ni ddylai fod rhaid iddynt anfon pob cyfathrebiad drwy law'r aelod ward etholedig.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru

Eitem 2.4

P-05-845 Rhowch Derfyn ar Wrthdaro Buddiant yng Nghyfansoddiad Awdurdodau Lleol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emma Eynon, ar ôl casglu 56 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar i Lywodraeth Cymru orfodi gwell bolisiau cod ymddygiad i gyflogeion awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae swyddogion awdurdod cynllunio yn cael rhedeg cwmnïau ymgynghori cynllunio preifat a chyflawni eu rolau cyhoeddus ar yr un pryd. Nid oes adnodd ar gael y gellir ei fuddsoddi er mwyn plismona'r cwmnïau preifat hyn, lle y'u datgenir yn y ffurflenni angenrheidiol, er atal twyll a llygredd.

A chymryd swyddogion cynllunio fel enghraifft, mae potensial y gallai rhedeg busnesau ymgynghori preifat 'yn ddistaw bach' hwyluso llygredd, gan fod llawer o fathau, yn gyffredinol yn ymwneud â chamddefnyddio swydd. Mae angen rhoi terfyn ar yr arfer hwn ar unwaith a rhaid diwygio'r cyfansoddiadau fel na cheir ymddwyn yn y modd hwn mwyach. Rydym yn galw am fwy o atebolrwydd a thryloywder gan ein hawdurdodau lleol, a rhaid pennu safonau ymddygiad mewn swyddogaethau cyhoeddus o'r fath a fyddai'n uwch na rhai'r sector preifat, lle mae hyn yn hynod annerbyniol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru

P-05-884 Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 i gynnwys sefydliadau'r DU sydd â gweithrediadau dramor

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Alanna Jones, ar ôl casglu 158 o lofnodion ar-lein a 141 ar bapur, sef cyfanswm o 299 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio geiriad presennol Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau"). Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y diwygiadau i'r Rheoliadau i fynd i'r afael â chyfyngiad presennol Rheoliad 6, Amod 5, sy'n atal myfyrwyr o Gymru rhag cael mynediad at gyllid myfyrwyr i astudio mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU lle mae lleoliad yr astudio ar eu campws tramor. Rydym ni'n ystyried y gellid ei gyflawni, naill ai drwy:

ehangu'r meini prawf yn Amod 5 i gynnwys cyrsiau a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch yn y DU naill ai yn eu campysau yn y DU neu dramor; neu

diwygio Amod 5 i gynnwys cyrsiau a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch sy'n cynnig cyrsiau dynodedig ac i gynnwys Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis ar y rhestr o sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau dynodedig, gan ddefnyddio'ch disgresiwn o dan Reoliad 8.

Diwygiad Arfaethedig:

Opsiwn 1

"Condition 5

At least half of the teaching and supervision which comprise the course is provided in the United Kingdom or at any campus of a United Kingdom higher education institution located outside of the United Kingdom".

Opsiwn 2

"Condition 5

At least half of the teaching and supervision which comprise the course is provided in the United Kingdom. This condition shall apply, unless the course has been deemed to be treated as a designated course pursuant to Regulation 8(1) or 8(2)."

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i fabwysiadu'r newidiadau arfaethedig fel y gall myfyrwyr o Gymru sy'n gwneud cais am gyrsiau mewn sefydliadau fel Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis gael eu hystyried fel "myfyrwyr cymwys" at ddibenion cael cymorth i fyfyrwyr. Mae Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis yn cynnig cyrsiau addysg uwch mewn ieithoedd modern, ble mae'r addysgu a'r goruchwyllo yn cael ei gynnal yn bennaf ym Mharis. Serch hynny, caiff myfyrwyr eu haddysgu gan gyflogeion Prifysgol Llundain a'i phartner cydweithredol, Queen Mary, Prifysgol Llundain.

Oni wneir newid i eiriad presennol y Rheoliadau, bydd myfyrwyr o Gymru yn parhau i ddioddef anfantais anghyfiawn wrth wneud cais am gyrsiau mewn sefydliadau penodol yn y DU. Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud y newid hwn gan nad oes cyfyngiad tebyg ar draws rhannau eraill o'r DU. Os na chymerir unrhyw gamau, gall y Rheoliadau barhau i fod yn rhwystr i fyfyrwyr sy'n gobeithio gwneud cais am gyrsiau yn Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis.

Gwybodaeth ychwanegol:

Rhwng mis Medi 2018 a mis Chwefror 2019 cawsom negeseuon anghyson ynglŷn â sefyllfa Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis a chafodd myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr wybodaeth anghyson am eu cymhwysedd. Cymerodd Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis y camau canlynol i fynd i'r afael â hyn:

Cysylltwyd â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

Cysylltwyd â Chyllid Myfyrwyr Cymru

Cysylltwyd ag adran 'Dynodi' Llywodraeth Cymru.

Mae copïau o'r ohebiaeth berthnasol ar gael ar gais.

Pan eglurwyd y sefyllfa o'r diwedd, ym mis Chwefror, cafodd ymgeiswyr o Gymru wybod gan Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis nad oeddent yn gymwys i gael cyllid myfyrwyr ar gyfer y rhaglenni hyn, ac achosodd hyn ofid

sylweddol iddynt. Felly, rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ein pryderon fel mater o flaenoriaeth.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyllid i fyfyrwyr wrth astudio ar gampws tramor sefydliad addysg uwch y DU

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil: Y Pwyllgor Deisebau | 25 Mehefin 2019
Petitions Committee | 25 June 2019

Rhif y ddeiseb: [P-05-884](#) (158 llofnod)

Teitl y ddeiseb: Diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 i gynnwys sefydliadau'r DU sydd â gweithrediadau dramor.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio geiriad presennol Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau"). Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y diwygiadau i'r Rheoliadau i fynd i'r afael â chyfyngiad presennol Rheoliad 6, Amod 5, sy'n atal myfyrwyr o Gymru rhag cael mynediad at gyllid myfyrwyr i astudio mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU lle mae lleoliad yr astudio ar eu campws tramor. Rydym ni'n ystyried y gellid ei gyflawni, naill ai drwy:

- ehangu'r meini prawf yn Amod 5 i gynnwys cyrsiau a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch yn y DU naill ai yn eu campysau yn y DU neu dramor; neu
- diwygio Amod 5 i gynnwys cyrsiau a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch sy'n cynnig cyrsiau dynodedig ac i gynnwys Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis ar y rhestr o sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau dynodedig, gan ddefnyddio'ch disgrisiwn o dan Reoliad 8.

Diwygiad arfaethedig:

Opsiwn 1 – "Condition 5 cy

At least half of the teaching and supervision which comprise the course is provided in the United Kingdom or at any campus of a United Kingdom higher education institution located outside of the United Kingdom".

Opsiwn 2 – "Condition 5

At least half of the teaching and supervision which comprise the course is provided in the United Kingdom. This condition shall apply, unless the course has been deemed to be treated as a designated course pursuant to Regulation 8(1) or 8(2)."

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i fabwysiadu'r newidiadau arfaethedig fel y gall myfyrwyr o Gymru sy'n gwneud cais am gyrsiau mewn sefydliadau fel Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis gael eu hystyried fel "myfyrwyr cymwys" at ddibenion cael cymorth i fyfyrwyr. Mae Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis yn cynnig cyrsiau addysg uwch mewn ieithoedd modern, ble mae'r addysgu a'r goruchwyllo yn cael ei gynnal yn bennaf ym Mharis. Serch hynny, caiff myfyrwyr eu haddysgu gan gyflogeion Prifysgol Llundain a'i phartner cydweithredol, Queen Mary, Prifysgol Llundain.

Oni wneir newid i eiriad presennol y Rheoliadau, bydd myfyrwyr o Gymru yn parhau i ddioddef anfantais anghyfiawn wrth wneud cais am gyrsiau mewn sefydliadau penodol yn y DU. Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud y newid hwn gan nad oes cyfyngiad tebyg ar draws rhannau eraill o'r DU. Os na chymerir unrhyw gamau, gall y Rheoliadau barhau i fod yn rhwystr i fyfyrwyr sy'n gobeithio gwneud cais am gyrsiau yn Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis.

Gwybodaeth ychwanegol **[gan y deisebydd]**:

Rhwng mis Medi 2018 a mis Chwefror 2019 cawsom negeseuon anghyson ynglŷn â sefyllfa Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis a chafodd myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr wybodaeth anghyson am eu cymhwysedd. Cymerodd Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis y camau canlynol i fynd i'r afael â hyn:

Cysylltwyd â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Cysylltwyd â Chyllid Myfyrwyr Cymru.

Cysylltwyd ag adran 'Dynodi' Llywodraeth Cymru.

Mae copïau o'r ohebiaeth berthnasol ar gael ar gais.

Pan eglurwyd y sefyllfa o'r diwedd, ym mis Chwefror, cafodd ymgeiswyr o Gymru wybod gan Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis nad oeddent yn gymwys i gael cyllid myfyrwyr ar gyfer y rhaglenni hyn, ac achosodd hyn ofid sylweddol iddynt. Felly, rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ein pryderon fel mater o flaenoriaeth.

1. Crynodeb

Mae'r deisebydd yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i:

- ddiwygio'r rheoliadau cymorth ariannol i fyfyrwyr i **ganiatáu i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru dderbyn yr un cymorth ariannol i astudio ar gampws tramor sefydliad y DU** ag y byddent yn ei gael i astudio cwrs yn y DU yn gyfan gwbl.

Mae dau fath posibl o astudio tramor ar gyfer myfyrwyr y DU:

- y cyntaf yw lle mae myfyriwr yn y DU yn astudio ei gwrs cyfan neu ran ohono mewn sefydliad yn y DU sydd â champws dramor;
- yr ail yw lle mae myfyriwr yn y DU yn astudio ei gwrs cyfan neu ran ohono mewn sefydliad nad yw'n sefydliad yn y DU sydd â champws dramor;

Yr enghraifft gyntaf yw testun y ddeiseb hon.

Mae'r ddeiseb yn nodi sefyllfa myfyriwr sy'n dymuno dilyn cwrs astudio israddedig tair blynedd ar gampws Prifysgol Llundain ym Mharis, [Athrofa Paris Prifysgol Llundain \(ULIP\)](#).

Gan fod y cwrs hwn yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl yn Ffrainc ni fyddai fel arfer yn denu cymorth i fyfyrwyr oni bai bod y pŵer o fewn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 i wneud eithriad yn cael ei ddefnyddio i "ddynodi" y cwrs yn eithriadol.

Y sefydliadau sy'n gyfrifol am wneud cais am y statws dynodi eithriadol hwn.

Mae'r uchod yn wir ar gyfer Cymru a Lloegr.

Ni fu modd cael cadarnhad ffurfiol gan Student Finance England ar adeg ysgrifennu'r brîff hwn, ond drwy ohebiaeth anffurfiol:

- **Credir bod y cyrsiau dan sylw yn ULIP wedi'u dynodi'n eithriadol gan y Gweinidog yn Lloegr**, sy'n golygu bod y cyrsiau'n denu cymorth myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n byw yn Lloegr.
- **Credir nad ydynt wedi'u dynodi'n eithriadol gan Weinidogion Cymru**, a gall hyn fod yn opsiwn o hyd sy'n agored i'r sefydliad – fel arfer y sefydliad sy'n gyfrifol am wneud cais am ddynodiad eithriadol ar gyfer ei gyrsiau ei hun.

Credir mai'r uchod yw'r rheswm pam nad oes gan fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru hawl i gymorth i fyfyrwyr i astudio yn ULIP, tra bod myfyrwyr o Loegr yn cael y cymorth hwn.

Mae'r Gweinidog yn ystyried bod y materion a godwyd gan y deisebydd yn 'deilwng' ac mae'n cynghori y bydd swyddogion yn adolygu'r mater ymhellach er nad yw o blaid diwygio'r rheoliadau fel y gofynnwyd amdano yn y ddeiseb.

2. Rheoliadau cyllid i fyfyrwyr yng Nghymru

Mae [Rheoliadau Addysg \(Cymorth i Fyfyrwyr\) \(Cymru\) 2018](#) (y Rheoliadau) yn pennu'r meini prawf ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr yn sefydliadau'r DU ar gyfer y rhai sy'n byw yng Nghymru fel arfer.

Daeth y Rheoliadau i rym ar 12 Mawrth 2018. I fod yn gymwys am gyllid i fyfyrwyr, rhaid i'r myfyriwr a'i gwrs dewisedig fodloni meini prawf penodol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Un amod yw bod yn rhaid i gwrs astudio fod yn un 'dynodedig' gan Lywodraeth Cymru i ddenu cymorth i fyfyrwyr. Gall cyrsiau gyflawni statws 'dynodedig' mewn un o ddwy ffordd – naill ai drwy:

1. gymhwyso o dan y rheoliadau; neu
2. drwy Weinidogion Cymru yn dyrannu'r statws i gwrs penodol nad yw fel arall yn gymwys o dan y rheoliadau.

2.1 Statws dynodedig drwy fodloni'r holl amodau yn y rheoliadau

Yn y rheoliadau, rhaid i gyrsiau dynodedig fodloni amodau penodol. Mae [Amod 5](#), y mae'r ddeiseb yn ymwneud ag ef, yn mynnu fel a ganlyn:

“Mae o leiaf hanner yr addysgu a'r goruchwyllo sy'n ffurfio'r cwrs yn cael ei ddarparu yn y Deyrnas Unedig.”

Ar y wyneb, ni fyddai'r cyrsiau yn ULIP yn bodloni'r amod hwn, gan eu bod yn cael eu darparu'n gyfan gwbl yn Ffrainc. Cyflwynwyd Amod 5 gan reoliadau 2018. Fel y trafodwyd uchod, ac ymhellach isod, mae'r geiriad yn y rheoliadau sy'n berthnasol i Loegr yn debyg iawn ac yn cael yr un effaith.

2.2 Statws dynodedig drwy Weinidogion Cymru yn gwneud eithriad

Os nad yw cwrs yn bodloni'r amodau ar gyfer dynodiad a nodir yn y Rheoliadau, efallai y bydd y Gweinidog yn dal i roi statws dynodedig iddo drwy bwerau sydd wedi'u cynnwys yn [Rheoliad 8](#):

“(1) Caiff Gweinidogion Cymru bennu bod cwrs i'w drin fel pe bai'n gwrs dynodedig er gwaethaf y ffaith na fyddai fel arall yn gwrs dynodedig, oni bai am y dynodiad.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu dynodiad cwrs a wneir o dan baragraff (1).”

3. Rheoliadau cyllid i fyfyrwyr yn Lloegr

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at y rheoliadau sy'n berthnasol i Loegr.

Yn Lloegr, cafodd [Rheoliadau Addysg \(Cymorth i Fyfyrwyr\) 2011](#) eu diwygio yn ddiweddarach gan [Reoliadau Addysg \(Cymorth i Fyfyrwyr\) \(Diwygio\) 2014](#) i gynnwys yr un amod ag a gyflwynwyd yng Nghymru yn 2018:

“a course is substantially provided in the United Kingdom where at least half of the teaching and supervision which comprise the course is provided in the United Kingdom;”.

Fodd bynnag, er gwaethaf yr amod hwn, mae myfyrwyr o Loegr yn dal i allu cael gafael ar gyllid i fyfyrwyr, ac ar hyn o bryd ni all myfyrwyr Cymru wneud hynny. Adlewyrchir y sefyllfa hon yn y canllawiau ar [wefan ULIP](#) sy'n egluro:

“Students accepted onto this course are eligible to apply for tuition fee and maintenance loans from Student Finance England or other government bodies. Students who are applying for funding through Student Finance Wales are not eligible for tuition fee and maintenance loans”.

4. Polisi Llywodraeth Cymru ar gyllido astudiaeth dramor

Ar 14 Mai, ymatebodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, i'r Pwyllgor Deisebau yn dilyn llythyr y Pwyllgor ar 3 Mai.

Mae'r ymateb yn ailadrodd fod Llywodraeth Cymru:

- wedi ymrwymo i sicrhau bod cymorth ar gael i fyfyrwyr astudio dramor;
- yn darparu nifer o gyfleoedd ar gyfer astudio dramor i fyfyrwyr, gan gynnwys cymryd rhan lawn yng nghynllun Erasmus+;
- wedi lansio cynllun peilot newydd sy'n cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr o Gymru gymryd rhan mewn gweithgareddau dramor sy'n ymwneud â'u hastudiaethau, fel astudio, gwirfoddoli ac interniaethau.

Ar y system cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru, mae'r Gweinidog yn egluro:

“Rhaid i o leiaf hanner yr addysgu a'r oruchwyliaeth sy'n rhan o'r cwrs gael eu darparu yn y DU. Felly, gall hyd at hanner fod dramor. Er mwyn galluogi hyn, mae ffioedd a chymorth cynhaliadaeth yn dal i gael eu talu, a gall cymorth ychwanegol fod ar gael ar ffurf grantiau teithio. **Mae hyn yn llwyddiannus ac yn effeithiol ar gyfer mwyafrif llethol y myfyrwyr** [Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil].”

O ran y materion penodol a godwyd yn y ddeiseb, mae'r Gweinidog yn cynghori nad yw o blaid diwygio'r gofynion rheoleiddio cyffredinol o ran lleoliad y ddarpariaeth ar hyn o bryd. Mae'n amlinellu dau brif gyfyngiad i gefnogi astudio gradd lawn dramor:

- “Ystyriwyd amrywiol fodelau cymorth yn ystod yr adolygiad ac roedd angen gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â blaenoriaethau. **Gyda'r gyllideb gyfyngedig sydd ar gael mewn cyfnod o gyni parhaus, mae ein cyllid yn cefnogi'r rhai mwyaf anghenus.** Nid yw ymestyn hyn i'r rhai sy'n astudio eu gradd gyfan dramor yn bosibl.”
- “ Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer addysg uwch wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd [...]. **Mae arfer y swyddogaethau rheoleiddio sy'n angenrheidiol i'r fframwaith hwn fod yn effeithiol pan fydd darpariaeth yn symud dramor yn debygol o fod yn anodd,** ac mae'n cynyddu'r risg i'r naill grŵp a'r llall.” [Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]

Mae'r ymateb hefyd yn nodi na fyddai cynyddu swm yr incwm ffioedd a drosglwyddir dramor yn cefnogi nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn addysg uwch yng Nghymru. [Canfu gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru](#) lefel isel o alw am astudio graddau llawn dramor.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-884
Ein cyf/Our ref KW/06047/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Mai 2019

Annwyl Gadeirydd

Diwygiad P-05-884 i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018 i gynnwys sefydliadau'r DU sy'n gweithredu dramor

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 3 Mai ynghylch deiseb a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn gyntaf, dylwn ei gwneud yn glir bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau ers tro bod cymorth ar gael i fyfyrwyr astudio dramor. Gall myfyrwyr ymgymryd â lleoliadau dramor a chymryd rhan lawn yng nghynllun Erasmus+. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu profi'r trochi ieithyddol a gweithgareddau eraill sy'n hanfodol i gyflawni rhai graddau, yn ogystal â hwyluso cyfnewid diwylliannol, deallusol a sefydliadol cadarnhaol. Efallai y bydd eich deisebydd yn ymwybodol fy mod wedi cyhoeddi cynllun peilot newydd i gynnig cymysgedd o gyfleoedd i fyfyrwyr o Gymru gymryd rhan mewn gweithgareddau dramor sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau. Maent yn cynnwys astudio, gwirfoddoli ac interniaethau, yn amrywio o ddwy neu dair wythnos i wyth wythnos.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 54
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nod y system statudol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru yw darparu cymorth i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs addysg uwch dynodedig yn y DU. Rhaid i o leiaf hanner yr addysgu a'r oruchwyliaeth sy'n rhan o'r cwrs gael eu darparu yn y DU. Felly, gall hyd at hanner fod dramor. Er mwyn galluogi hyn, mae ffioedd a chymorth cynhaliaeth yn dal i gael eu talu, a gall cymorth ychwanegol fod ar gael ar ffurf grantiau teithio.

Mae hyn yn llwyddiannus ac yn effeithiol ar gyfer mwyafrif llethol y myfyrwyr. Mae wedi sicrhau bod miloedd o fyfyrwyr o Gymru wedi llwyddo i astudio ar gyfer y graddau hynny lle mae cyfnod astudio dramor naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol iawn ar gyfer llwyddiant academaidd, yn fwyaf felly mewn ieithoedd tramor modern. Mae hyn yn parhau i fod yn wir. O safbwynt academaidd yn unig, nid yw'n amlwg pam mae angen cyfnod hir o astudio dramor. Nodaf mai Athrofa Prifysgol Llundain ym Mharis yw'r unig sefydliad yn y DU sy'n trefnu darpariaeth o'r fath.

Mae yna ddau gyfyngiad mawr o ran cefnogi astudio gradd lawn dramor:

1. Fel y nodais wrth y Pwyllgor mewn ymateb i ddeiseb P-05-848, mae'r pecyn cymorth sydd ar gael o flwyddyn academaidd 2018/19 yn seiliedig ar argymhellion a ddeilliodd o Adolygiad Diamond o Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru. Ystyriwyd amrywiol fodelau cymorth yn ystod yr adolygiad ac roedd angen gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â blaenoriaethau. Gyda'r gyllideb gyfyngedig sydd ar gael mewn cyfnod o gyni parhaus, mae ein cyllid yn cefnogi'r rhai mwyaf anghenus. Nid yw ymestyn hyn i'r rhai sy'n astudio eu gradd gyfan dramor yn bosibl.

2. Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer addysg uwch wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd a'i nod yw darparu amddiffyniadau ar gyfer myfyrwyr ar y naill law, a'r pwrs cyhoeddus ar y llaw arall. Mae arfer y swyddogaethau rheoleiddio sy'n angenrheidiol i'r fframwaith hwn fod yn effeithiol pan fydd darpariaeth yn symud dramor yn debygol o fod yn anodd, ac mae'n cynyddu'r risg i'r naill grŵp a'r llall.

Mae'n ffaith hefyd na fyddai cynyddu faint o incwm ffioedd a drosglwyddir dramor yn cefnogi ein nod o fuddsoddi mewn addysg uwch yng Nghymru.


Rwy'n cefnogi astudio tramor a chomisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio dramor (Peilot Astudio Dramor: Astudiaeth pennu cwmpas, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 2018). Y cynllun peilot y soniaf amdano uchod yw canlyniad yr astudiaeth honno. Nododd yr adroddiad hwnnw lefel isel o alw cudd am astudio graddau llawn dramor.

Am y rhesymau hyn, nid wyf yn bwriadu diwygio'r gofynion rheoleiddio cyffredinol yn ymwneud â lleoliad y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae'r materion a godir gan y deisebydd yn werth i'w hystyried a byddaf yn gofyn i'm swyddogion eu hadolygu ymhellach.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading "Kirsty Williams". The signature is written in a cursive style with a large initial "K".

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

P-05-884 Amendment to Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 to include UK institutions with operations overseas, Correspondence – Petitioner to Chair, 17.06.19

Dear Chair,

I am writing to you in response to Kirsty Williams AC/AM's letter dated 14 May 2019.

First, I would like to express my disappointment with Ms Williams's response and lack of understanding of the issues raised in my petition. I believe it is imperative that the goal of this petition regarding the Welsh Government's Student Support is fully understood by yourselves as Ms Williams has missed a vital detail. By presenting this petition, I am not asking the Petitions Committee to extend financial support to Welsh Students who wish to study the entirety of their degrees overseas in foreign institutes, but merely students who wish to study at British universities who offer degrees studied in an overseas British Campus. This was made quite clear in the title of the petition:

'Amendment to Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 to include UK institutions with operations overseas'

As Ms Williams states, the University of London Institute in Paris is the only UK institution to currently offer a degree taught entirely overseas. Therefore, the petition is asking you as the Petitions Committee to consider amending the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018 to ensure that Welsh students can study where they want and to ensure that the higher education system, and especially the university system does not become elitist once again. As it stands with the new regulations, Welsh students who wish to study at ULIP can only do so if they or their family have the means to pay the annual fee of £9250, plus enough funds for necessities such as rent, transport and grocery shopping, which would normally be covered by a maintenance loan. Due to the change in regulations, all students based in Wales who were intending to begin their Undergraduate degree in ULIP in September 2019 have had to find an alternative university as they could not finance their studies without the financial support of the student finance system.

I understand the apprehension surrounding the idea of funding students to study outside of the UK. However, ULIP is a British institution which is part of the University of London group which includes the London School of Economics and Political Science, the Royal Academy of Music, King's College London and Queen Mary University of London. In fact, as students of ULIP, our tuition fees are paid to Queen Mary University of London. I have enclosed a copy of my Tuition Fee Invoice for the academic year 2018/19 which confirms the above.

Ms Williams refers to the Diamond Review of Higher Education and Student Finance in Wales in her correspondence. I had previously read this review when I had issues with my own student finance. I understand that the new regulations are only based on this review, however I would like to draw your attention to specific aspects of the document.

Throughout the review, studying abroad is mentioned and as early on as the Foreword, it states:

“We have thought deeply about whether Welsh students should be funded to study out of Wales and have concluded that it is both in the students’ and, indeed, Wales’ interests to enable students to study across national boundaries including Europe and, potentially, further afield.” (The Review of Higher Education Funding and Student Finance Arrangements in Wales: Final Report, 2016, p.6)

I have included below excerpts from the Diamond Review which support my petition. I have also included page numbers so that you can easily find the whole excerpts in the Review if you wish to do so. For your information, these page numbers correspond to the online version of the Final Report on the Welsh Government’s website.

- The Review Panel recommends that the holistic funding system described above should be available for study in Wales, across the UK, and across Europe (subject in the latter case to any implications of the result of the recent referendum on membership of the European Union). (p.8)
- The funding system should not impact negatively on institutional autonomy and academic freedom. (p.17)
- The Review Panel have thought deeply about whether Welsh students should be funded to study outside of Wales and concluded that it is in both the students and Wales’ interests to enable students to study across national boundaries, including in Europe and, potentially, further afield. It is recommended that student support should be available to Welsh domiciled students that choose to study anywhere in the UK or in other European Union member states, depending on the form of the UK’s on-going relationship with the EU following the conclusion of exit negotiations. (p.57)
- The Welsh Government should also explore the possibility of running a pilot scheme to establish whether it is possible to extend the student support package beyond the UK and EU for Welsh domiciled students that choose to study further afield for the whole of their degree programme⁵⁸. This proposed pilot would be applicable to Welsh domiciled students wishing to study at not for-profit higher education providers beyond the EU and those

institutions with a recognised track record of quality provision (as agreed by HEFCW). (pp.52-53)

- Student support should be portable and available to Welsh domiciled students that choose to study anywhere in the UK or in other European Union States (subject to the UK remaining in the EU) (p.53)
- The Welsh Government to explore possibility of running a pilot scheme to establish whether it is possible or desirable to extend the student support package beyond the UK and EU – for Welsh domiciled students that choose to study further afield for the whole of their degree programme. (The proposed pilot would be study at not-for-profit organisations with a recognised track record of quality provision). (p.53)
- In conclusion, the proposed package of recommendations outlined above comprises interlocking elements and should be seen in its entirety; it therefore requires implementation as a whole. (p.69)

From the information above, I believe that it is evident that the Diamond Review supports providing finance for Welsh students to study overseas, therefore I do not understand why the Welsh Government and above all, the Minister for Education are so against providing Welsh students with the funding they need to study at the University of London Institute in Paris. I am of the opinion that my university is actually providing two important aspects which are mentioned in the Final Report, supporting British institutes and studying abroad. Firstly, it is a British institute therefore it is a part of the British higher education system. As a student of the University of London Institute in Paris, I pay the same amount for fees (£9250) as a student studying in the University of Bristol, for example. Secondly, the university's building (which it shares with the British Council) is as the name implies, in Paris, hence students have the opportunity of studying and living abroad whilst gaining a British degree from the University of London. It is important to note here that the University of London Institute in Paris specialises in French Studies, therefore the majority of students will study French as a major or minor subject in their degree. Ms Williams made an interesting comment about studying abroad. She claimed that "from a purely academic point of view, it is not obvious why a long period of study abroad is necessary." I would hope that I do not need to list the benefits of studying the French language, French History, French Literature, history of French art and French linguistics in France!

I would also like to make a few comments on the other constraint mentioned by Ms Williams, the protection of the public purse. I am in total agreement that we must protect the Welsh economy and tax payers' money; however it would theoretically benefit the public purse if Welsh students decided to study French at the University

of London Institute in Paris as opposed to a university in Britain. The French studies degree at the University of London Institute in Paris is only three years long whereas a French degree in Britain is normally four years as there is a year abroad. Obviously, this is not needed if you study at the University of London Institute in Paris as you are already abroad! This means that only three years of studies would need to be funded instead of four.

From my personal experience, I receive around £18,000 per year and I will have received this amount for three years at the end of my degree which will total to £54,000. If I had decided to study at the other universities I applied for (Strathclyde, Dundee, Aberdeen and Swansea) my tuition fee loan and maintenance loan would have totalled £72,000 if I'd studied at Swansea University and £90,000 if I'd studied in Scotland (French degrees last five years in Scottish universities). Obviously these figures are approximate, but I hope they highlight the financial advantages of giving Welsh students the opportunity to study at the University of London Institute in Paris.

Additionally, if the Minister of Education is so concerned about the public purse and investment in higher education in Wales, why can Welsh students receive loans and funding to study at British institutions outside of Wales? (Except if they wish to study at the University of London Institute in Paris, a British institution with one main difference to any other British university – its location.)

I hope the above information is helpful in explaining some more about my petition and the University of London Institute in Paris.

I look forward to meeting the Committee on June 18 when I hand the petition over. If you have any questions, I would be more than happy to answer them.

Yours Sincerely,

Alanna Jones

P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Linda Scott, ar ôl casglu cyfanswm o 1,275 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i dynnu ei chefnogaeth yn ôl i'r "Llwybr Coch" (Gwella Coridor Glannau Dyfrdwy yr A55/A494/A548) am y rhesymau a ganlyn:

- 1) Mae adeiladu'r ffordd newydd drwy goetir hynafol, ac ar draws tir amaethyddol, yn groes i Bolisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 2) Bydd y cynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Pont Dyfrdwy newydd ar yr A494, ehangu'r A494 a gwelliannau eraill, yn gwella traffig Glannau Dyfrdwy heb fod angen y 'Llwybr Coch'.
- 3) Nid oedd y costau a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau dewis y "Llwybr Coch" yn cyfrif am y gwaith angenrheidiol i wella Pont Sir y Fflint. Nid yw hyn ychwaith yn cynnwys ychwanegu lôn araf ar bwynt tagfeydd difrifol ar yr A55, sef y bryn allan o Laneurgain tuag at Dreffynnon. Bydd adeiladu'r Llwybr Coch yn gwaethygu'r pwyntiau hyn. Mae'r amcangyfrif annigonol o'r costau yn awgrymu nad oes modd dweud bod y ffordd arfaethedig yn cynnig gwerth am arian. At hynny, nid yw'r costau'n cynnwys y gwelliannau arfaethedig i'r A494 (a amlinellir yn 2).
- 4) Roedd dewis y Llwybr Coch yn seiliedig ar arolygon traffig anghynrychioliadol.
- 5) Wrth ystyried y Llwybr Coch, methodd Llywodraeth Cymru ag ymgynghori'n ddigonol â thrigolion ardaloedd y Fflint a Laneurgain er gwaetha'r effaith sylweddol bosibl ar eu cymunedau. Er gwaetha'r ffaith y byddai'r ffordd newydd yn costio dros chwarter biliwn o bunnoedd, mae'n debygol o arwain at fwy o dagfeydd traffig yn y cymunedau hyn.

6) Mae'r Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd wedi galw am weithredu brys i leihau allyriadau CO₂, gan ddweud mai dim ond 12 mlynedd sydd gennym ar ôl i achub hinsawdd y byd. Mae angen inni fuddsoddi ein hadnoddau cyfyngedig mewn trafndiaeth gynaliadwy fel rheilffyrdd.

Gwybodaeth ychwanegol:

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Delyn
- Gogledd Cymru

Deiseb: Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Mehefin 2019

Petitions Committee | 25 June 2019

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-886

Teitl y ddeiseb: Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i dynnu ei chefnogaeth yn ôl i'r "Llwybr Coch" (Gwella Coridor Glannau Dyfrdwy yr A55/A494/A548) am y rhesymau a ganlyn:

- 1) Mae adeiladu'r ffordd newydd drwy goetir hynafol, ac ar draws tir amaethyddol, yn groes i Bolisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 2) Bydd y cynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Pont Dyfrdwy newydd ar yr A494, ehangu'r A494 a gwelliannau eraill, yn gwella traffig Glannau Dyfrdwy heb fod angen y 'Llwybr Coch'.
- 3) Nid oedd y costau a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau dewis y "Llwybr Coch" yn cyfrif am y gwaith angenrheidiol i wella Pont Sir y Fflint. Nid yw hyn ychwaith yn cynnwys ychwanegu lôn araf ar bwynt tagfeydd difrifol ar yr A55, sef y bryn allan o Laneurgain tuag at Dreffynnon. Bydd adeiladu'r Llwybr Coch yn gwaethygu'r pwyntiau hyn. Mae'r amcangyfrif annigonol o'r costau yn awgrymu nad oes modd dweud bod y ffordd arfaethedig yn cynnig gwerth am arian. At hynny, nid yw'r costau'n cynnwys y gwelliannau arfaethedig i'r A494 (a amlinellir yn 2).
- 4) Roedd dewis y Llwybr Coch yn seiliedig ar arolygon traffig anghynrychioliadol.
- 5) Wrth ystyried y Llwybr Coch, methodd Llywodraeth Cymru ag ymgynghori'n ddigonol â

thrigolion ardaloedd y Fflint a Llaneurgain er gwaetha'r effaith sylweddol bosibl ar eu cymunedau. Er gwaetha'r ffaith y byddai'r ffordd newydd yn costio dros chwarter biliwn o bunnoedd, mae'n debygol o arwain at fwy o dagfeydd traffig yn y cymunedau hyn.

6) Mae'r Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd wedi galw am weithredu brys i leihau allyriadau CO₂, gan ddweud mai dim ond 12 mlynedd sydd gennym ar ôl i achub hinsawdd y byd. Mae angen inni fuddsoddi ein hadnoddau cyfyngedig mewn trafndiaeth gynaliadwy fel rheilffyrdd.

Y cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru ac mae'n gyfrifol am gynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith, gan gynnwys yr A55, yr A494 a'r A548.

Yn ei chynllun [A55/A494/A548: Coridor Glannau Dyfrdwy](#), bwriad Llywodraeth Cymru yw "gwella'r amser teithio a diogelwch rhwng yr Afon Dyfrdwy a Chyfnewidfa Llaneurgain".

Cynllun A55/A494/A548: Coridor Glannau Dyfrdwy

Ym mis Mawrth 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru [ymgyngoriad ar welliannau i'r A55/A494/A548: coridor Glannau Dyfrdwy](#). Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn pobl ar ddau opsiwn gwahanol ar gyfer y rhan hon o'r rhwydwaith ffyrdd:

- Opsiwn glas i gynnwys lledu'r A55/A494 a chau cyffyrdd neu eu haddasu a'u gwella; ac
- Opsiwn coch i gynnwys cynyddu capasiti ar yr A548 bresennol a ffordd newydd rhwng yr A55 a'r A548.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, asesodd Llywodraeth Cymru'r opsiynau yn unol â'r [Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru \(WelTAG\)](#).

Ym mis Medi 2017, yn y [Cyfarfod Llawn, cyhoeddoedd](#) Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth bryd hynny (Gweinidog erbyn hyn), y llwybr a ffafriwyd ar gyfer ei fabwysiadu yn dilyn yr ymgynghoriad a'r arfarniad WelTAG, sef [yr opsiwn coch](#).

Yr opsiwn coch

Fel yr amlinellwyd, mae'r opsiwn coch yn cynnwys adeiladu ffordd newydd. Mae'r cynllun yn cynnwys:

- Ffordd ddeuol 13km newydd â dwy lôn a fydd yn cysylltu yr A55–A5119 yng nghyffordd Llaneurgain (Cyffordd 33) â'r A494 a'r A550 i'r gogledd i Gyffordd Parkway Glannau Dyfrdwy; a
- Chynyddu'r capasiti'r A548 bresennol, gan gynnwys addasiadau a gwelliannau i gyffyrdd a darparu rhan newydd o ffordd rhwng yr A548 a'r A55.

